| Cyfarfod – Bwrdd yr Ymddiriedolwyr / Board of Trustees | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod / Date of meeting:** | 23.5.24 |
| **Rhif agenda / Agenda number** | XX |
| **Teitl Papur / Report title:** | Cynllun Gweithredol Corfforaethol 2024-25 |
| **Noddir y Papur gan / Report Author:** | Ciara Hand |
| **Cyflwynir y Papur gan / Paper presented by:** | Peter Holt / Jane Richardson |
| **Gweithredu Ymddiriedolwyr / Trustee Action:** | Trafod a Chymeradwyo |

**Mae'r themâu strategol canlynol wedi'u hadlewyrchu o fewn y papur hwn.**
**(Rhowch sgôr yn y blwch o dan bob thema, 2 wedi'i hadlewyrchu'n llwyr, 1 wedi'i hadlewyrchu rhywfaint, neu 0 heb ei hadlewyrchu)**

| LLE I BAWB | DYSGU A CHREU | BLAENORIAETHU'R BLANED | CEFNOGI LLES | CREU PROFIADAU DIGIDOL | AR DRAWS Y BYD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **2** | **2** | **2** | **2** | **2** | **2** |

| | |
|---|---|
| Hwyluswyr strategol (rhowch yr hwyluswyr perthnasol mewn **ffont trwm**) | **Sefydlogrwydd Ariannol; Cynhyrchu Incwm; Ymchwil a Gwerthuso; Datblygu ein Pobl; Llywodraethu Da; yr Iaith Gymraeg; Brand Clir ac Adnabyddus; Cyfleusterau sy'n Addas i'r Pwrpas; Gweithio Diogel.** |

**Nod yr Adroddiad a'r Penderfyniad angenrheidiol**

1. Cyflwyno fersiwn derfynol ddrafft y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2024-25 a'r targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig.

   Argymhelliad i'r Bwrdd:

   a. Cymeradwyo Cynllun Gweithredol 2024/25, a'r camau nesaf.

**Argymhelliad**

**2.** Cyflwynir y papur er mwyn rhoi gwybod i'r Ymddiriedolwyr am y camau gweithredu sy'n cael eu hystyried.

**Pwyntiau allweddol i'r Ymddiriedolwyr**

a. Mae Cynllun Gweithredol 2024-25 yn cynrychioli Blwyddyn 4 ein cylch cynllunio busnes pum mlynedd presennol. Mae'n amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol.
b. Ceir 32 o Amcanion Llesiant ar draws y chwe Addewid a'r 9 Hwylusydd.
c. Mae 118 o Gamau Gweithredol wedi'u nodi ar gyfer 2024-25, mewn perthynas â 76 o Weithgareddau o'n Cynllun Busnes pum mlynedd.
d. Mae'r cynllun hefyd yn nodi targedau ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) y sefydliad.
e. Bu oedi yn y broses o gynllunio ar gyfer datblygu a chyflawni ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2024-25 oherwydd lleihad sylweddol mewn cymorth grant a rhaglen waith Llywio Ein Dyfodol wedi hynny.
f. Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r cynllun hwn i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau (PPRC) ym mis Chwefror 2023 er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddiwygio ar ôl ystyried y newidiadau a gynigiwyd drwy raglen Llywio Ein Dyfodol. Mae rhai meysydd gwaith wedi cael eu haddasu mewn ymateb i'r strwythurau newydd.
g. Rydym yn gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r cynlluniau drafft a'r targedau arfaethedig ar gyfer y DPAau.
h. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, byddwn yn rhannu'r Cynllun Gweithredol â swyddfa'r Dirprwy Weinidog. Mae'n bosibl y bydd yn awgrymu diwygiadau i'r cynllun cyn ei gymeradwyo.
i. Ochr yn ochr â'r broses hon, mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal ymgyngoriadau mewnol â staff ac wedi cynnig chwe maes gwaith i'w blaenoriaethu yn y tymor canolig. Bydd hyn yn ein helpu i roi ffocws o'r newydd i'n cynlluniau a'u blaenoriaethu yn y tymor canolig, er mwyn cyflawni cynlluniau gwaith hyd at 2026-27 a fydd yn diwallu anghenion Strategaeth 2030 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
j. Rydym yn datblygu hyn o fewn ein gwaith cynllunio tymor hwy ar gyfer cyflawni Strategaeth 2030.

**Goblygiadau o ran adnoddau**

1. Mae rhaglen Llywio Ein Dyfodol yn dal i fynd rhagddi; bydd angen amser i ymgorffori'r newidiadau ochr yn ochr â chyflawni'r Cynllun Gweithredol.
2. Adnoddau ariannol i gysoni â gwaith cynllunio gweithredol.
3. Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn tybio na fydd rhagor o doriadau cyllideb na newidiadau staffio.

**Sut mae cynigion yn cefnogi'r Pum Ffordd o Weithio ac yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant?** Nodwch pa Ffyrdd o Weithio mae'r cynigion yn eu cefnogi drwy roi tic yn y blwch perthnasol isod.

| Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynhwysiant |
|---|---|---|---|---|
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | |
|---|---|
| **Risg a Lliniaru**<br>Risg – Yn sgil llai o gyllid a gweithlu llai, ni allwn gyflawni'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Busnes pum mlynedd presennol, a bydd effaith ar ein gallu i gyflawni Strategaeth 2030.<br>Byddwn yn ailflaenoriaethu ein gwaith dros y tair blynedd nesaf ac yn canolbwyntio ar y prosiectau allweddol a'r blaenoriaethau craidd er mwyn ein helpu i gyflawni Strategaeth 2030. Rydym yn llunio tair strategaeth (cyllid, pobl, a chynhyrchu incwm) a hefyd yn datblygu Cynllun Busnes pum mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 2030. Byddwn yn ystyried gwaith cynllunio tymor hwy drwy'r broses hon ac yn dyrannu adnoddau'n unol â hynny. | |
| **Safonau'r Gymraeg**<br>4. Bydd y Cynllun Gweithredol a'r gwaith cynllunio tymor canolig yn cefnogi Safonau'r Gymraeg. | |
| **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**<br>5. Bydd y Cynllun Gweithredol a'r gwaith cynllunio tymor canolig yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. | |
| **Addewidion Ehangu Ymgysylltiad**<br>6. Bydd y Cynllun Gweithredol a'r gwaith cynllunio tymor canolig yn cefnogi'r gwaith sy'n ymwneud ag ehangu ymgysylltiad. | |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>7. Bydd y Cynllun Gweithredol a'r gwaith cynllunio tymor canolig yn cefnogi'r gwaith sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | |
| **Cynaliadwyedd**<br>8. Bydd y Cynllun Gweithredol a'r gwaith cynllunio tymor canolig yn datblygu ein gwaith sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a datgarboneiddio. | |
| **Darparu unrhyw atodiadau neu wybodaeth gefnogol.**<br>9. Y fersiwn bresennol o Gynllun Gweithredol 2024/25. | |

DRAFT

# Amgueddfa Cymru

## Cynllun Gweithredol Corfforaethol 2024-25

Cynnwys


1. Cyflwyniad i Gynllun Gweithredol 2024/25
   - Cyflawni'r Nodau Llesiant
   - Ymgorffori'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
   - Mesur Effaith
   - Rheoli Risg
   - Cymorth Cyllideb
2. Cynllun Gweithredol – Canlyniadau a Chamau Gweithredu ar gyfer cyflawni'r Addewidion a'r Hwyluswyr
3. Dangosyddion Perfformiad Allweddol


## 1. Cyflwyniad i Gynllun Gweithredol 2024/25


Mae Cynllun Gweithredol 2024-25 Amgueddfa Cymru yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau wedi'u trefnu yn ôl Strategaeth 2030 a'n Hamcanion Llesiant. [1]

Daw manylion y gweithgarwch pum mlynedd o'n Cynllun Busnes pum mlynedd ar gyfer 2021-26. Mae'r Cynllun Gweithredol Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn cynrychioli Blwyddyn 4 y cynllun hwn. Caiff yr Amcanion Llesiant a'r Camau Gweithredol cysylltiedig eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r cynlluniau'n dangos sut rydym yn gweithio i gefnogi'r Nodau Llesiant a dilyn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r Pum Ffordd o Weithio.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau chwarterol a blynyddol ar ein gwaith.

### Cyflawni'r Nodau Llesiant

Rydym wedi mapio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Addewidion, Hwyluswyr a Chanlyniadau). Mae trosolwg o hyn i'w weld isod. Mae'r Cynllun Gweithredol yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut rydym yn gweithio i gyflawni'r Amcanion Llesiant.



Ein Haddewidion Strategol ar gyfer 2030 yn erbyn Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Our Strategic Commitments for 2030 mapped against the Well-being of Future Generations Goals

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynrychioli pawb<br>Make sure that everyone is represented | 1 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes<br>Inspire creativity and learning for life | 1 | | 3 | 4 | 5 | 6 | |
| Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd<br>Help protect and restore nature and our environment | 1 | 2 | 3 | | | | 7 |
| Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli<br>Support well-being through inspirational spaces and experiences | | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | |
| Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol<br>Discover and explore the museum digitally | 1 | | | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Creu cysylltiadau ar draws y byd<br>Build global connections | 1 | | | | | 6 | 7 |
| Hwyluswyr: gweithredoedd sydd yn cefnogi ein holl waith<br>Enablers: actions that support our work | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |




## Ymgorffori'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Yn ogystal â chefnogi'r Nodau Llesiant, mae ein Cynllun Gweithredol yn dangos sut rydym yn bwriadu gweithio'n gynaliadwy:

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy – Ffordd o Weithio | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r anghenion hirdymor | Rydym yn gwerthuso ein gwydnwch ariannol ac yn sicrhau bod dulliau ar waith er mwyn diogelu'r sefyllfa hon, drwy ddatblygu strategaeth gyllid a chyflawni argymhellion yr Adolygiad Teilwredig.<br><br>Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau newidiadau hirdymor drwy gyflawni'r gwaith i ehangu ymgysylltiad. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn datblygu ffyrdd o weithio a all helpu i sicrhau bod casgliadau Amgueddfa Cymru yn cynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar gyfer y dyfodol, drwy gyflawni'r Strategaeth Datblygu Casgliadau newydd a'r Siarter Dad-drefedigaethu.<br><br>Rydym yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau staff a gwirfoddolwyr, ac yn datblygu cynlluniau olyniaeth er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa'n darparu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei Amcanion Llesiant. | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn ein galluogi i sicrhau amgueddfa genedlaethol i Gymru, yn y cnawd ac yn ddigidol. Bydd prosiect Celf ar y Cyd, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ynghyd â naw oriel bartner, yn helpu pobl i gael mynediad at gelf gyfoes ledled Cymru.<br><br>Rydym yn cydweithio â phobl a chymunedau i greu a chynnal rhaglenni dysgu a llesiant, fel Pinc College a rhaglenni dementia fel 'Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion' gyda chartrefi gofal a Chymdeithas Alzheimer's; ac â phartneriaid allanol i ddatblygu digwyddiadau ac arddangosfeydd mewn digwyddiadau a lleoliadau lleol a chenedlaethol ledled Cymru, er enghraifft cydweithio ag Oriel y Parc.<br><br>Mae ein Hamcanion Llesiant yn croestorri adrannau ac is-adrannau'r amgueddfa gan sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi llesiant pobl Cymru yn y ffordd orau posibl. Fel rhan o'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, rydym yn gweithio'n agos gydag undebau llafur i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol a chydweithredol. |
| **Cynhwysiant**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r Nodau Llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu | Mae ein cynlluniau'n cynnwys cymunedau er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglenni y byddwn yn eu cynnal a'r gofodau y byddwn yn eu datblygu yn cynrychioli pobl ledled Cymru yn well. Mae prosiect Ail-ddweud Stori'r Cymoedd yn cynnwys sefydliadau a grwpiau lleol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiad y prosiect yn eu cymuned.<br><br>Ein nod yw meithrin cysylltiadau cydweithredol sy'n llawn ymddiriedaeth â'r cymunedau y byddwn yn eu cynnwys, ac rydym yn adeiladu ar ein gwaith gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni rhaglen Safbwynt(iau). Mae rhwydwaith o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, sef pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, yn rhan o'r broses o lywio polisïau a rhaglenni cyhoeddus.<br><br>Cafodd Strategaeth 2030 ei datblygu drwy ymgynghori â phobl, cymunedau a phartneriaid ledled Cymru. Rydym yn gweithio i wneud y dull cydweithredol hwn yn rhan annatod o'n gwaith, er enghraifft ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, a phrosiect yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall Amcanion Llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant, a'i amcanion eraill, neu | Rydym yn ystyried ein gwaith cynllunio mewn modd cyfannol ym mhob rhan o'r Amgueddfa er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni'n helpu i gyflawni Strategaeth 2030 a'n Hamcanion Llesiant yn y ffordd orau posibl.<br><br>Ein nod yw gweithio mewn ffordd integredig gyda sefydliadau eraill ledled Cymru i gyflawni nodau cyffredin, er enghraifft gweithio gyda |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.** | Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddatblygu nodau'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru.<br><br>Rydym yn ystyried ein cynigion cyllideb ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir er mwyn cyflawni Strategaeth 2030 a'n Hamcanion Llesiant.<br><br>Rydym yn gwrando ac yn datblygu partneriaethau a all helpu i lywio ein gwaith dros y 10 mlynedd nesaf, ac yn cynnwys sefydliadau partner, lle bo angen, wrth ddatblygu gwaith i ddiwallu anghenion cyffredin. |
| **Atal**<br>**Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.** | Rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym wrthi'n gweithio i ddod yn amgueddfa wrth-hiliol erbyn 2030.<br><br>Rydym yn gweithio i ddatgarboneiddio gweithrediadau safleoedd er mwyn ein helpu i ddod yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol. Caiff hyfforddiant ar lythrennedd carbon ei gynnig i'r holl staff, er mwyn eu grymuso i wneud eu haddunedau cynaliadwyedd eu hunain.<br><br>Rydym yn datblygu polisïau i sicrhau bod arferion casglu'n parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gennym gysylltiadau sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall â llawer o amgueddfeydd ac orielau ledled Cymru er mwyn sicrhau y gallwn gefnogi mynediad at y casgliadau cenedlaethol o fewn cymunedau lleol.<br><br>Rydym yn helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn galluogi ymwelwyr a chyfranogwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein holl amgueddfeydd a rhaglenni. |

<u>Adroddiadau</u>
Rydym yn adrodd ar ein gwaith drwy adroddiadau chwarterol a blynyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys manylion am ein gwaith i gyflawni camau gweithredu'r Cynllun Gweithredol a chyflawni'r Amcanion Llesiant.
Mae ein holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2023-24 i'w gweld yn Atodiad 1.
Ochr yn ochr â Dangosyddion Perfformiad Allweddol ein sefydliad, rydym hefyd yn adrodd ar feysydd gwaith ym mhob rhan o'r portffolio.

<u>Rheoli Risg</u>
Mae gennym weithdrefn rheoli risg fanwl sy'n ein galluogi i gynnal sicrwydd a chydymffurfiaeth yn ein holl waith. Caiff hon ei hadolygu'n chwarterol ac yn flynyddol. I gefnogi'r broses cynllunio gweithredol flynyddol, gellir canfod risgiau newydd a rhoi rheolaethau allweddol ar waith i'w rheoli'n briodol.
Dylid nodi'r ffaith bod angen diwallu anghenion yr Amcanion Llesiant mewn cyfnod heriol yn ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun sefyllfa'r Amgueddfa yn y tymor byr i'r tymor canolig.

## 2. Cynllun Gweithredol 2024/25

Daw Addewidion Strategol 1 i 6 a'r Hwyluswyr o Strategaeth 2030.
Caiff yr Amcanion Llesiant eu nodi yn y band gwyrdd – yr Addewidion/Hwyluswyr a'r Canlyniadau Lefel Uchel.
Daw'r gweithgareddau o'r Cynllun Busnes pum mlynedd ac maent yn cwmpasu'r cyfnod 2021-26.

# Cynrychioli pawb.

1 **Cymru lewyrchus** A prosperous Wales

3 **Cymru iachach** A healthier Wales

4 **Cymru sy'n fwy cyfartal** A more equal Wales

5 **Cymru o gymunedau cydlynus** A Wales of more cohesive communities

6 **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

7 **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** A globally responsible Wales

### Addewid Strategol 1: Cynrychioli pawb

| Gweithgaredd (2021-26) | Cyfarwydd wr/Is-adran | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Chwarte r Cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r casgliad cenedlaethol yn cynrychioli ac yn cael ei rannu â phawb o bobl Cymru | | | | |
| A1.01<br>Cyflawni Siarter Dad-drefedigaethu Casgliadau Amgueddfa Cymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i weithredu'r meysydd gwaith a nodir yn y Siarter gyda ffocws ar reoli casgliadau a phenderfyniadau ynglŷn â chaffael. Adolygu cynnydd ac adolygu'r Siarter yn unol â hynny<br>• Parhau i gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer dad-drefedigaethu cronfa ddata'r casgliadau. (*TR30) | Pennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg | Ch1-Ch4<br><br>Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A1.02<br>Datblygu a chyflawni dull newydd o weithio er mwyn hwyluso defnydd eang o gasgliadau dros Gymru, o fewn y rhwydwaith amgueddfeydd rhanbarthol a chymunedau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i roi benthyciadau i amgueddfeydd, orielau a sefydliadau cymunedol ledled Cymru. (*TR55)<br>• Gweithio gydag amgueddfeydd lleol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i drysorau/darganfyddiadau o dan y Cynllun Henebion Cludadwy (PAS) gael eu cadw mewn amgueddfeydd lleol, yn dilyn y diwygiad i Ddeddf Trysorau 2023. | Pennaeth Hanes Cyhoeddus ac Archaeoleg | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4 |
| A1.03<br>Datblygu a chyflawni Strategaeth Gasgliadau newydd a fydd yn bwrw ymlaen â'r broses o amrywiaethu'r casgliad a darnau o waith mewn cydweithrediad â phartneriaid cymunedol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Pan fydd y fersiwn derfynol o'r Strategaeth Datblygu Casgliadau wedi'i chwblhau, datblygu cynlluniau casglu ar wahân ar gyfer yr holl adrannau curadurol, a'u rhoi ar waith. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4 |
| A1.031<br>Cynnal safon gofal casgliadau a gydnabyddir yn genedlaethol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cyflwyno ffurflen achredu yn unol â'r gwahoddiad gan Arts Council England. Cyflwyno yn ystod Ch2<br>• Ystyried dulliau ar gyfer yr archif gorfforaethol yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynigion. (*TR52) | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4<br>Ch1-Ch4 |
| A1.032<br>Gweithio tuag at ddatblygu Oriel Genedlaethol Gelf Gyfoes. | Casgliadau ac Ymchwil | • Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru:<br>○ Helpu'r orielau partner i gael mynediad at ddarnau o waith o'r casgliad cenedlaethol, eu benthyca a'u rhaglennu.<br>○ Datblygu dull curadurol a nodau rhaglen ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru.<br>○ Datblygu brand ac asedau brand ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-4<br>Ch1-4<br>Ch1-2 |
| A1.033<br>Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddatblygu a chyflwyno | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i roi cyngor a chymorth yn ôl yr angen. Mynd i gyfarfodydd y Grŵp Llywio. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-Ch4 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| amgueddfa bêl-droed newydd i Gymru. | | | | |
| A1.034<br>Datblygu llwybrau newydd ar gyfer defnyddio ein casgliadau fel adnodd i ysbrydoli gwneuthurwyr a gweithwyr creadigol proffesiynol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau â'r adolygiad o'r casgliadau, gan gynnwys datblygu a chyflwyno'r cynllun, a monitro cynnydd ac effeithiau. | Pennaeth Celf | Ch1-Ch4 |
| A1.04<br>Gweithio gyda phartneriaid cymunedol ac amgueddfeydd lleol i gefnogi datblygu sgiliau ym maes rheoli casgliadau a meysydd curadurol eraill. | Casgliadau ac Ymchwil | • Defnyddio'r broses o roi'r Strategaeth Datblygu Casgliadau ar waith i bennu meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu sgiliau. | Pennaeth Hanes ac Archaeoleg/Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-4 |
| Rydym yn cyflawni rôl arweiniol wrth gefnogi Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru. | | | | |
| A1.041<br>Sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Ddiwylliannol. | Prif Weithredwr | • Ymateb yn ffurfiol pan gaiff yr ymgynghoriad ar Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi. | Prif Weithredwr | Ch1-2 |
| Mae arddangosfeydd a digwyddiadau yn cael eu creu, eu defnyddio a'u mwynhau gan gymunedau dros Gymru | | | | |
| A1.06<br>Datblygu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol gyda phartneriaid. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cynnal digwyddiadau a mentrau cymunedol ar y cyd â phartneriaid, a datblygu blaenraglen ddigwyddiadau, fel y nodir yn y Strategaeth ar gyfer Rhaglenni Cyhoeddus. **(*TR35)**<br>• Datblygu a chyflwyno cynnig BSL gyda'r gymuned F/fyddar. | Penaethiaid Amgueddfeydd, Pennaeth Addysg, Pennaeth Ymgysylltu. | Ch1-4<br><br>Ch1-4 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A1.061<br>Datblygu a gwireddu strategaeth ar gyfer arddangosiadau parhaol sy'n berthnasol i dreftadaeth cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb neu hiliaeth. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, sefydliadau celfyddydau gweledol a gweithwyr creadigol proffesiynol i ddatblygu a chyflawni menter Safbwynt(iau) yn holl amgueddfeydd Amgueddfa Cymru fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a'n hymdrech gyfunol i gyflawni'r nodau diwylliant a threftadaeth yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. **(*TR30)** | Pennaeth Hanes a Datblygu Casgliadau, Pennaeth Ymgysylltu, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | Ch1-4 |
| A1.07<br>Datblygu arddangosfeydd cymunedol gyda phartneriaid. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu rhaglen o arddangosfeydd gyda chymunedau a phartneriaid eraill fel y nodir yn y Strategaeth ar gyfer Rhaglenni Cyhoeddus. | Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio | Ch2-4 |
| Rhoi Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu ar waith sy'n cynrychioli amrywiaeth cymunedau Cymru | | | | |
| A1.071<br>Datblygu a chyflawni Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu. | Cysylltiadau a Chyllido | • Datblygu Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu er mwyn helpu i gyflawni amcanion strategol byrdymor a hirdymor Amgueddfa Cymru. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch3 |
| Mae defnyddwyr ac ymwelwyr yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau yng Nghymru | | | | |
| A1.09<br>Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol ar draws yr Amgueddfa. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol. **(*TR34; TR35)** | Pennaeth Ymgysylltu | Ch4 |
| Mae'r staff a'r Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru | | | | |
| A1.11<br>Diweddaru Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Amgueddfa Cymru. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2024/25.<br>• Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2025-28, sefydlu rhwydwaith a chysoni ag amserlen dyletswydd y sector cyhoeddus, gan ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Teilwredig, y Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, a | Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Ymgysylltu (Pob Pennaeth Adran) | Ch1-Ch4<br><br>Ch3-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | chynlluniau Cymru Wrth-hiliol a LHDTC+ Llywodraeth Cymru. | | |
| A1.111<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolwyr i recriwtio Bwrdd sy'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. | Prif Weithredwr | • Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar Ymgyrchoedd Recriwtio ar y Cyd yn y dyfodol er mwyn i'r Ymddiriedolwyr recriwtio Bwrdd sy'n cynrychioli amrywiaeth Cymru. | Ysgrifennydd y Bwrdd/Pennaeth Adnoddau Dynol | ? |
| Hyrwyddo strategaethau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gweithredu ar Anabledd, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. | | | | |
| A1.12<br>Helpu i roi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar waith, yn ogystal â chynlluniau cydraddoldeb eraill mewn amgueddfeydd ac orielau. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a chynlluniau eraill i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Mynd ati gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a diwygio'r cynlluniau ar gyfer 2025 a thu hwnt gyda'r Tasglu. **(*TR35)** | Pennaeth Ymgysylltu, Penaethiaid Casgliadau ac Ymchwil, Penaethiaid Amgueddfeydd, ac Adnoddau Dynol | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| A1.13<br>Datblygu a chyhoeddi Amcanion Tlodi Plant. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Atal Tlodi Plant mewn cydweithrediad â phartneriaid, plant a phobl ifanc ac mewn ymateb i Strategaeth Tlodi Plant Cymru Llywodraeth Cymru (y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2024). | Pennaeth Ymgysylltu; Pennaeth Addysg | Ch4 |

DRAFT

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | | |
|---|---|---|
| **DPA** | **Targed** | **Is-adran Arweiniol** |
| **Ymweliadau:** Nifer yr ymweliadau a gofnodir ym mhob safle | 1.56m | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| **Benthyciadau:** Benthyciadau o fewn Cymru | Benthyciadau i'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. | Casgliadau ac Ymchwil |

DRAFT

# Ysbrydoli Creadigrwydd a Dysgu am Oes




## Addewid Strategol 2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Meithrin a hwyluso creadigrwydd i bawb, a dathlu llwyddiannau creadigol Cymru. | | | | |
| A2.02<br>Datblygu Cynllun Busnes a Strategaeth Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus 5 Mlynedd a'u rhoi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Mynd ati bob blwyddyn i adolygu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu, cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Uwch-dîm Gweithredol a'r Bwrdd ac adolygu a diwygio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2026/30 **(*TR57).** | Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | Ch3<br><br>Ch4 |
| A2.03<br>Cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau i ddathlu creadigrwydd ar y cyd â phartneriaid. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu<br><br>Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu a chynnal rhaglenni digwyddiadau masnachol a chynhyrchu incwm.<br><br>• Datblygu cyhoeddiad newydd ar Gwen John. | Rheolwr Digwyddiadau, Pennaeth Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'r arweinydd strategol ar gyfer digwyddiadau | Ch1-4<br><br>Ch3-4 (i'w gyhoeddi yn ystod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynnal arddangosfeydd yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru ac mewn lleoliadau partner. | Pennaeth Cyhoeddi<br><br>Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio | Ch3 2025)<br><br>Ch1-4 |
| Gall pob ysgol yng Nghymru ddefnyddio Amgueddfa Cymru bob blwyddyn i wireddu'r cwricwlwm cenedlaethol | | | | |
| A2.06<br>Datblygu a chynnal rhaglenni ac adnoddau hybrid i ysgolion. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Datblygu a chynnal rhaglen hybrid ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yn rhithwir ac wyneb yn wyneb yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru.<br>• Datblygu a chyhoeddi adnoddau ar gyfer athrawon ac ysgolion i gefnogi'r cwricwlwm newydd.<br>• Cefnogi athrawon dan hyfforddiant drwy leoliadau ac ymweliadau. | Pennaeth Addysg | Ch1-4<br><br>Ch1-4 |
| Mae oedolion a theuluoedd ar draws Cymru yn cael eu hysbrydoli i ddysgu gydag Amgueddfa Cymru | | | | |
| A2.07<br>Datblygu a chyflawni Rhaglen Addysg Cyn-ysgol. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Datblygu a chynnal gweithgareddau addysg cyn ysgol ar ffurf rhaglenni partneriaeth gyda Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin. | Pennaeth Addysg | Ch1-4 |
| A2.08<br>Datblygu a chynnal rhaglen Addysg i'r Teulu a Rhwng Cenedlaethau. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Parhau i ddatblygu a chynnal rhaglen addysg i'r teulu gyda phartneriaid.<br>• Treialu cyfleoedd cynhyrchu incwm ar gyfer addysg i'r teulu. | Pennaeth Addysg | Ch1-4 |
| A2.09 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cynnal rhaglen addysg oedolion. | Pennaeth Addysg | Ch2-3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Oedolion a'i roi ar waith. | | | | |
| Mae pobl ifanc yn arwain a chynhyrchu rhaglenni a phrofiadau mentrus a chreadigol | | | | |
| A2.10<br>Ehangu ymgysylltiad â phobl ifanc. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cynnal rhaglen ymgysylltu a arweinir gan bobl ifanc yn unol â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Rhaglenni Cyhoeddus, gan gynnwys rhwydwaith Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru. | Pennaeth Ymgysylltu | Ch1-4 |
| Mae gwirfoddolwyr, lleoliadau a phrentisiaid yn cael eu cefnogi i wireddu eu llawn botensial | | | | |
| A2.12<br>Adolygu Polisi a Chynllun Gweithredu ar gyfer gwirfoddoli a lleoliadau a'u rhoi ar waith. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cwblhau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025-29, gan gynnwys diweddaru polisïau a datblygu'r defnydd o CRM, a pharatoi i geisio ennill gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn 2024. | Pennaeth Ymgysylltu | Ch2-3<br>Ch3-4 |
| A2.13<br>Cynnal y rhaglen wirfoddoli sefydledig, gan gynnwys gwirfoddoli digidol ac e-wirfoddoli. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Datblygu, hysbysebu a chynnig cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr unigol a gwirfoddolwyr mewn grwpiau. (*TR36)<br>• Helpu partneriaid cymunedol i gynnig cyfleoedd i wirfoddoli yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru. | Pennaeth Ymgysylltu | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| A2.14<br>Datblygu a chynnal lleoliadau a datblygu fframwaith ar gyfer Rhaglen Brentisiaeth strwythuredig. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cynnal a chefnogi lleoliadau, prentisiaid a rhaglenni prentisiaeth. | Pennaeth Ymgysylltu, Pennaeth Adnoddau Dynol (prentisiaethau), Penaethiaid Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Big Pit, Sain Ffagan ac | Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Amgueddfa Lechi Cymru | |

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | | |
|---|---|---|
| DPA | Targed | Is-adran Arweiniol |
| **Addysg (Ysgolion):** Nifer y defnyddwyr mewn amgueddfeydd ac yn ddigidol | 180,000 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| **Arddangosfeydd (Dros dro):** Niferoedd yn Amgueddfa Cymru ac mewn lleoliadau partner | 650,000 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| **Digwyddiadau:** Niferoedd sy'n bresennol | 176,000 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| **Gwirfoddoli:** Oriau | 25,000 awr | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |

DRAFT

# Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

**1** **Cymru lewyrchus**
A prosperous Wales

**2** **Cymru gydnerth**
A resilient Wales

**7** **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
A globally responsible Wales

DRAFT

## Addewid Strategol 3: Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng amgylcheddol a natur ym mhopeth a wnawn | | | | |
| A3.01<br>Datblygu'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy i gefnogi targed datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a chyfrannu at dargedau Sector Cyhoeddus Cymru i gyrraedd Carbon Sero Net erbyn 2030, a'i roi ar waith. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Diweddaru a chyflawni Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy sy'n cynnwys:<br>○ cynnal prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru;<br>○ paratoi adroddiadau Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru;<br>○ cynnal hyfforddiant ar lythrennedd carbon. | Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | Ch1-4<br><br>Ch3<br>Ch1-4 |
| A3.02<br>Adolygu ein Polisi a Chynllun Gweithredu Amgylcheddol yn flynyddol i sicrhau gwelliant parhaus, a chynnal ein statws cydymffurfio achredig (gan gynnwys | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Sicrhau bod pob safle a swyddogaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2024 a chydymffurfio â Chynllun Seren BS8555 ar gyfer rheolaethau a monitro amgylcheddol bob blwyddyn ar gyfer pob amgueddfa a swyddogaeth. | Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth/Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ein defnydd o ynni a rheoli gwastraff). | | | | |
| A3.03<br>Datblygu Cynllun Rheoli Adfer Tir a Natur ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer ar gyfer pob un o safleoedd ein hamgueddfeydd. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Cyflawni Cynllun Gweithredu Rheoli Adfer Tir a Natur ar gyfer Amgueddfa Cymru (rhan o'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy).<br>• Parhau â'r rhaglen dreigl o arolygon bioamrywiaeth er mwyn llywio cynlluniau gweithredol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. | Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth/Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil/Penaethiaid Gwyddorau Naturiol a Phennaeth Sain Ffagan/Rheolwr Gwirfoddoli | Ch1-4<br><br>Ch1-Ch4 |
| A3.031<br>Datblygu a chryfhau ein prosesau caffael cyfredol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol. | Cyllid ac Adnoddau | • Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i hysbysebu ein tendrau yn agored fel rhai sy'n addas i BBaChau pryd bynnag y bo modd, gan ofyn am wybodaeth am is-gontractwyr/cadwyni cyflenwi lleol mewn tendrau | Pennaeth Cyllid | Ch1-Ch4 |
| Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng amgylcheddol ac ysgogi pobl i ymateb | | | | |
| A3.04<br>Cynnal rhaglenni arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng amgylcheddol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu rhaglen tair blynedd o arddangosfeydd ar yr argyfwng amgylcheddol gyda rhwydwaith o bartneriaid. | Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio/Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil | Ch3-4<br><br>Ch3 |
| Mae ymchwil yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a newid amgylcheddol yng Nghymru, neu sydd o fudd i Gymru | | | | |
| A3.07<br>Cynnal amrywiaeth o brosiectau ymchwil sy'n canolbwyntio ar fyd natur a'r amgylchedd fel yr adlewyrchir yn y Strategaeth Ymchwil. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu a chyflwyno ceisiadau am gyllid sy'n helpu i ddatblygu a chyflawni gwyddor yr amgylchedd. | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil | Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A3.08<br>Sefydlu a chynnal rhwydwaith newydd o bartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Adolygu partneriaethau a chanfod unrhyw fylchau yn y rhwydwaith. Rhannu canfyddiadau gwaith ymchwil ar nifer o lwyfannau a sicrhau bod proffil rhyngwladol i'r gwaith.<br>• Parhau i weithio gyda phartneriaid mewn prifysgolion ar brosiectau cydweithredol. | Pennaeth Ymchwil/Penaethiaid Gwyddorau Naturiol | Ch4<br><br>Ch4 |
| A3.081<br>Adnabod ac arddangos ein gwaith ar y cyd ag ymchwilwyr a chymunedau lleiafrifedig ac amrywiol eu hethnigrwydd a'u diwylliant i ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o fyd natur a'r amgylchedd. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i wneud gwaith ymchwil ar y cyd â gwyddonwyr yn Ne Affrica (Amgueddfeydd Iziko De Affrica) a Nepal. | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil | Ch3 |

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | | |
|---|---|---|
| **DPA** | **Targed** | **Is-adran Arweiniol** |
| **Defnydd o ynni:** Gan ddefnyddio 2019/2020 fel llinell sylfaen, bydd Amgueddfa Cymru yn lleihau allyriadau carbon 2% y flwyddyn (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | Lleihad o 2% | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth |
| **Prosiectau ymchwil:** Nifer y prosiectau newydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â monitro amgylcheddol | 3 phrosiect | Casgliadau ac Ymchwil |

DRAFT

# Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

2 **Cymru gydnerth** A resilient Wales

3 **Cymru iachach** A healthier Wales

4 **Cymru sy'n fwy cyfartal** A more equal Wales

5 **Cymru o gymunedau cydlynus** A Wales of more cohesive communities

6 **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

DRAFT

## Addewid Strategol 4: Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Mae ein hamgueddfeydd yn ofodau sy'n cefnogi lles | | | | |
| A4.01<br>Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru gyda phartneriaid a chymunedau lleol i ddatblygu amgueddfa fyd-enwog i'n hymwelwyr a'n cymunedau, ac fel partner allweddol yn y broses o ddatblygu Amgueddfa'r Gogledd. | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Dechrau ar yr ailddatblygu mewn camau er mwyn creu amgueddfa o'r radd flaenaf sy'n cefnogi Statws Treftadaeth y Byd ar gyfer tirwedd llechi Cymru. *<br>o Ch1. Sicrhau cyllid, cymeradwyo RIBA 2 a'r dull caffael<br>o Ch2. Cwblhau'r gwaith caffael a chau'r safle<br>o Ch3/Ch4. Dechrau ar y gwaith cyfalaf | Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth/Cyfarwyddwr y Prosiect | Ch1-Ch4 |
| A4.03<br>Gwella mynediad i holl safleoedd Amgueddfa Cymru. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu/Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Hwyluso a chefnogi mentrau mynediad sy'n deillio o archwiliadau mynediad a monitro ac adolygu'n rheolaidd gydag adrannau cyflawni perthnasol yn ein holl amgueddfeydd. | Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu gyda Phenaethiaid Adran; Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Pennaeth | Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynllunio a chyflawni gwelliannau i'r seilwaith, y cyfleusterau, yr arddangosfeydd dehongli ac orielau a'r gofal casgliadau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. **(*TR 33r)** | Adeiladau, Pennaeth TGCh a Digidol | |
| Caiff pobl eu cefnogi i fyw bywydau iachach a hapusach fel rhan o raglen les i Gymru. | | | | |
| A4.05<br>Cyflawni rhaglenni lles cydweithredol gyda sectorau a darparwyr eraill. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Mewn partneriaeth â Chymdeithas Alzheimer's, cynnal trydedd flwyddyn rhaglen *Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion* yng ngwahanol amgueddfeydd Amgueddfa Cymru ac mewn lleoliadau cymunedol ac iechyd.<br>• Datblygu menter mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi presgripsiynu cymdeithasol yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru. **(*TR45)** | Pennaeth Addysg a Phenaethiaid Amgueddfeydd | Ch1-4<br><br>Ch1-4 |
| Cefnogi mwynhad a lles y cyhoedd drwy brofiadau ein hymwelwyr | | | | |
| A4.06<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr i gefnogi mwynhad a lles. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Datblygu Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr drafft i'w gwblhau yn 2025/26. | Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu Pennaeth Sain Ffagan; Penaethiaid Amgueddfeydd gyda chymorth Penaethiaid Adran | Ch3-4 |
| A4.08<br>Datblygu profiadau ymwelwyr, hyfforddiant gofal cwsmeriaid a darpariaeth gwasanaeth | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Adolygu hyfforddiant i ymgorffori cynhyrchu incwm yn nhaith yr ymwelwyr a pharhau i gynnal y rhaglen hyfforddi ar gyfer timau profiad ymwelwyr a thimau | Pennaeth Sain Ffagan, Pennaeth Mentrau | Ch1-4 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cwsmeriaid sy'n arwain y sector. | | sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd. | | |
| A4.09<br>Datblygu cynlluniau i gynnal sgiliau traddodiadol a chrefft ar draws Amgueddfa Cymru, a'u rhoi ar waith | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cyflawni'r cynllun olyniaeth yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, ac fel rhan o ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru, ac yn Big Pit. | Penaethiaid Big Pit, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Lechi Cymru, a'r Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| A4.10<br>Gwella a chynnal a chadw ein hystad dreftadaeth a'n hamgueddfeydd. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu/Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Parhau i gyflawni prosiectau i wella a chynnal ein treftadaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chyflawni prosiect y Vulcan, prosiect y Tŷ Gwydr i wella'r ased treftadaeth a phrosiect to'r castell. | Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, Pennaeth Sain Ffagan, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, Uned Adeiladau Hanesyddol. | Ch1-4<br><br>Ch1-4 |

## Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)

| DPA | Targed | Is-adran Arweiniol |
|---|---|---|
| **Boddhad Ymwelwyr:** Sgôr hyrwyddo net gyffredinol (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | Cyflawni sgôr hyrwyddo net o 50% | Cyllid ac Adnoddau / Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |

DRAFT

# Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol

1 **Cymru lewyrchus**
A prosperous Wales

4 **Cymru sy'n fwy cyfartal**
A more equal Wales

5 **Cymru o gymunedau cydlynus**
A Wales of more cohesive communities

6 **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

## Addewid Strategol 5: Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu gwasanaethau ac isadeiledd digidol i gynyddu a gwella cyrhaeddiad ac ymgysylltiad i sicrhau eu bod yn rhan hanfodol o greadigrwydd a phrofiad ymwelwyr | | | | |
| A5.01<br>Datblygu a chyflawni strategaeth ddigidol i amlinellu ein hamcanion a'u halinio â Strategaeth 2030 Amgueddfa Cymru. | Cyllid ac Adnoddau | • Rhoi strategaeth ddigidol ar waith, ei hadolygu a'i gwerthuso gyda phartneriaid a defnyddwyr, a chyflawni'r cynlluniau gweithredu Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT). | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-4 |
| A5.02<br>Datblygu gwefan a mewnrwyd newydd i adlewyrchu anghenion ein cyfranogwyr, a'n strategaeth a brand newydd. | Cyllid ac Adnoddau | • Cyflwyno ac adolygu adrannau gwefan, nodweddion a rhaglenni newydd i dargedu cynulleidfaoedd. | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1, 3, 4 |
| A5.03<br>Datblygu seilwaith digidol sy'n addas i'r diben, a'i roi ar waith. | Cyllid ac Adnoddau | • Parhau i fuddsoddi yn y seilwaith rheng flaen, megis Wi-Fi, er mwyn cynnig profiad gwell i ddefnyddwyr. | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-4 |

Draft

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A5.04<br>Cyflwyno llwyfannau Rheoli Adnoddau Mentrau (ERM)/Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a systemau a phrosesau cysylltiedig, a'u datblygu ymhellach. | Cyllid ac Adnoddau | • Cyflawni Cam 3 y prosiect CRM<br>• Datblygu ein dealltwriaeth o ddata, a defnyddio Deallusrwydd Busnes | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-2<br>Ch1-4 |
| A5.05<br>Sicrhau uniondeb a diogelwch ein data a'n rhwydweithiau, gan gynnwys GDPR. | Cyllid ac Adnoddau | • Sicrhau a chynnal ardystiad Cyber Essentials.<br>• Rhoi'r atebion gorau o'u math ar waith i fonitro ein hasedau digidol er mwyn sicrhau y caiff achosion o dor diogelwch a digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch eu canfod a'u lliniaru'n gyflym. Datblygu Polisïau a Gweithdrefnau Diogelwch TG a'u rhoi ar waith. | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| Mae ein harlwy digidol yn ategu ymweliadau â'r Amgueddfa ffisegol, gan greu profiadau cofiadwy | | | | |
| A5.07<br>Datblygu a chynnal profiadau digidol. | Cyllid ac Adnoddau | • Parhau i roi cynlluniau ar waith a chyflawni mentrau a gweithgareddau newydd sy'n cyd-fynd â'r strategaeth a'r cynlluniau gweithredu DDaT. | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. Cynrychiolydd Profiad Ymwelwyr, a chysylltu â dysgu digidol a gwirfoddoli | Ch1-4 |
| Gall pawb greu eu cynnwys, eu profiadau a'u cynnyrch eu hunain drwy ymgysylltu ag Amgueddfa Cymru ar-lein | | | | |
| A5.06<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni amcanion y strategaeth 3 blynedd newydd ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu cynigion gyda chyrff treftadaeth ddiwylliannol perthnasol yng Nghymru i ystyried sut y gall llwyfannau digidol gan gynnwys Casgliad y Werin Cymru ddod ynghyd yn gyfannol. | Rheolwr Rhaglen Casgliad y Werin Cymru | Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A5.08<br>Cyflawni'r Prosiect Digideiddio Celf Gyfoes i gynyddu cyfleoedd i arddangos y casgliad cenedlaethol mewn orielau ac amgueddfeydd dros Gymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau â'r gwaith ar y llwyfan digidol, gan gynnwys gwaith i gynefino darnau o waith wedi'u digideiddio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i Celf ar y Cyd, ac ymgorffori casgliad celf gyfoes Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<br>• Cynefino darnau o waith wedi'u digideiddio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i wefan Celf ar y Cyd. Gweithio gydag orielau partner i greu cyfleoedd digidol.<br>• Parhau i ddatblygu cynnwys gwefan curadurol a golygyddol arloesol, yn enwedig drwy gomisiynu lleisiau allanol. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Ch1-4<br>Ch1-4<br>Ch1-4 |
| A5.09<br>Gwella presenoldeb ar-lein i sicrhau y bydd profiadau, gwasanaethau a chynnwys digidol yn dathlu a chynrychioli syniadau, creadigrwydd ac arfer amrywiol a chyfoethog yng Nghymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cymryd rhan yn y cais seilwaith digideiddio i DISSCO a gynhelir gan yr Amgueddfa Astudiaethau Natur.<br>• Pennu cwmpas prosiectau peilot fel rhan o'r cam cyntaf, gan weithio gydag amgueddfeydd eraill yng Nghymru lle bo hynny'n briodol. | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil/Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-4 |

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | | |
|---|---|---|
| DPA | Targed | Is-adran Arweiniol |
| **Gwefan:** Nifer yr ymweliadau (yn gronnol dros gyfnod o flwyddyn) | 2,250,000 | Cyllid ac Adnoddau |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfryngau cymdeithasol:** Nifer y dilynwyr (ar ddiwedd y cyfnod) | 220,000 | Cyllid ac Adnoddau |
| **Casgliadau:** Nifer y gwrthrychau newydd â delweddau a gwybodaeth ategol a gaiff eu rhannu ar lwyfannau digidol yn ystod y cyfnod. | 1,800 | Casgliadau ac Ymchwil |

DRAFT

# Creu cysylltiadau ar draws y byd

**1**
**Cymru lewyrchus**
A prosperous Wales

**6**
**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

**7**
**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
A globally responsible Wales

## Addewid Strategol 6: Creu cysylltiadau ar draws y byd

| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
|---|---|---|---|---|
| Bydd Amgueddfa Cymru yn cael ei chydnabod fel amgueddfa o bwys byd-eang | | | | |
| A6.01<br>Cefnogi Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu a chyflawni Strategaeth Ryngwladol Amgueddfa Cymru i godi ymwybyddiaeth ar draws y byd. | Prif Weithredwr | • Datblygu Strategaeth Ryngwladol Amgueddfa Cymru er mwyn cefnogi ein nodau a'n henw da rhyngwladol | Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd/Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch3-4 |

DRAFT

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A6.03<br>Datblygu a rheoli partneriaethau rhyngwladol gyda llywodraethau, amgueddfeydd a phartneriaid strategol eraill. | Prif Weithredwr | • Cynnal, adolygu a datblygu partneriaethau yn unol â'r Strategaeth Ryngwladol newydd a chyfleoedd posibl i gydweithio. **(*TR49)** | Cysylltiadau a Chyllido<br>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil,<br>Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | Ch2-4 |
| A6.04<br>Datblygu Cynllun Gweithredu Teithio Rhyngwladol ar gyfer Arddangosfeydd Amgueddfa Cymru. | Casgliadau ac Ymchwil | • Datblygu cynllun arddangos a theithio ar gyfer Gwen John 2026 gyda phartneriaid. | Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Pennaeth Arddangosfeydd a Dylunio | Ch1-4 |
| Cefnogi twf twristiaeth o'r DU a rhyngwladol yng Nghymru | | | | |
| A6.06<br>Datblygu cynllun gweithredu i gefnogi Twristiaeth Ddiwylliannol, a'i roi ar waith, er mwyn codi ymwybyddiaeth ar draws gweddill y DU a'r byd. | Cysylltiadau a Chyllido | • Diffinio amcanion marchnata twristiaeth hirdymor fel sail ar gyfer datblygu cynllun marchnata twristiaeth effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ym marchnadoedd y diwydiant teithio.<br><br>• Gan gydweithio â phartneriaid allweddol, ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau lleoedd ar gyfer Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru fel rhan o brosiect Caerllion Rufeinig gyda Cadw a Chyngor Casnewydd. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu<br><br>Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu/Pennaeth Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Big Pit | Ch3<br><br>Ch1-4 |

| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | | |
|---|---|---|
| **DPA** | **Targed** | **Is-adran Arweiniol** |
| **Ymwelwyr o'r tu allan i Gymru:** Y ganran o gyfanswm yr ymweliadau unigryw a wneir gan bobl sy'n byw y tu allan i Gymru (y DU a gweddill y byd) (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | 45% | Cyllid ac Adnoddau/Cysylltiadau a Chyllido |

DRAFT

## Hwyluswyr Strategol




| Hwyluswyr Strategol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd | Cyfarwyddwr | Cynllun Gweithredol 2024/25 – Camau Gweithredu | Arweinydd | Chwarter |
| Cyflawni cynaliadwyedd drwy drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cadarn | | | | |
| B1.01<br>Cynnal systemau, prosesau a rheolaethau cyllid/caffael cadarn sy'n bodloni gofynion gweithredol a deddfwriaethol yn effeithlon. | Cyllid ac Adnoddau | • Paratoi cyllidebau drafft i'r Bwrdd eu cymeradwyo.<br>• Paratoi cyfrifon rheoli misol ar gyfer yr Uwch Dîm Gweithredol, ac adroddiadau ariannol chwarterol ar gyfer y Bwrdd, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau, a Llywodraeth Cymru<br>• Datblygu strategaeth ariannol ynghyd â strategaethau ar gyfer cynhyrchu incwm a chynllun y sefydliad | Pennaeth Cyllid<br><br>*Cyfarwyddwr Cyllid (ar ôl iddo gael ei benodi)* | Ch1<br><br>Ch1-Ch4<br><br>Ch2 |
| Cynhyrchu mwy o incwm er mwyn helpu i gyflawni strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 | | | | |
| B1.02<br>Datblygu Strategaeth Cynhyrchu Incwm Amgueddfa Cymru i gyd- | Cysylltiadau a Chyllido | • Datblygu Strategaeth Cynhyrchu Incwm ynghyd â Strategaeth Ariannol a chynllun y sefydliad.<br>• Parhau i gyflawni'r Strategaeth Cynhyrchu Incwm bresennol. | Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido, | Ch1<br><br>Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fynd â strategaeth y sefydliad. | | • Cyflawni Cynllun Mentrau o fewn fframwaith y Strategaeth Cynhyrchu Incwm.<br>• Datblygu a chyflawni Cynllun Datblygu (Codi Arian) o fewn fframwaith y Strategaeth Cynhyrchu Incwm. | Cyfarwyddwr Mentrau, Penaethiaid Mentrau.<br><br>Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd | Ch1-4<br><br>Ch1-4 |
| Bydd rhaglen gynhwysfawr o waith ymchwil a gwerthuso yn llywio ac yn datblygu pob un o'n meysydd gwaith | | | | |
| B1.03<br>Datblygu Rhaglen Ymchwil sy'n cyd-fynd yn glir â'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth a'r Addewidion, a'i rhoi ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Cynnal adolygiad llawn o'r Strategaeth Ymchwil er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn addas i'r diben.<br>• Parhau i ddatblygu prosiectau newydd a ariennir a monitro cynnydd prosiectau sydd eisoes ar waith. | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil | Ch4<br><br>Ch1-4 |
| B1.031<br>Datblygu cynllun ar gyfer Ymchwil Weithredu Gyfranogol sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion a phartneriaid cymunedol, a'i roi ar waith. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i roi'r cynllun ar waith, a gwerthuso cynnydd ac effeithiolrwydd gyda phartneriaid allweddol.<br>• Monitro cynnydd y rhaglen Cymrodyr Ymchwil Anrhydeddus | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil a Phenaethiaid Adran | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| B1.06<br>Codi proffil allanol ein galluogrwydd ym maes ymchwil o ran arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael i ymchwilwyr. Gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ddatblygu methodolegau newydd ar gyfer gwaith ymchwil cyfranogol. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i godi proffil gwaith ymchwil, gan gynnwys cyhoeddi erthyglau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a bwrw ymlaen â cheisiadau am gyllid gan ganolbwyntio ar waith ymchwil cyfranogol. | Pennaeth Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil | Ch1-4 |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • | | |
| Cefnogi a datblygu ein pobl, ein hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr er mwyn gwreiddio ymddiriedaeth, parch a chynhwysiant | | | | |
| B1.08<br>Datblygu Strategaeth Adnoddau Dynol a Phobl a'i rhoi ar waith. | Cyllid ac Adnoddau | • Adolygu'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'i diweddaru i ddiwallu anghenion busnes.<br>• Ymgorffori hyblygrwydd yn y gweithlu yn y strategaeth, gan gynnwys arwain newid, ysgogi canlyniadau a galluogrwydd arwain.<br>• Ymgorffori ffyrdd o weithredu ar ôl Covid mewn polisïau ac arferion gweithio hybrid gan helpu i gyrraedd targedau gweithio gartref. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Ch1<br>Ch1<br>Ch2 |
| B1.09<br>Datblygu a chyflawni Cynllun Cyfathrebu Mewnol. | Cysylltiadau a Chyllido | • Adolygu a gwerthuso gweithgareddau cyfathrebu mewnol er mwyn helpu i ddatblygu cynllun cyfathrebu mewnol newydd<br>• Cyflawni Cynllun Cyfathrebu Mewnol | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch3<br>Ch4 |
| B1.10<br>Gwreiddio egwyddorion Buddsoddwyr mewn Pobl a chyrraedd lefel nesaf Safon Buddsoddwyr mewn Pobl ym mhob amgueddfa. | Cyllid ac Adnoddau | • Gwreiddio Safon Arian Buddsoddwyr mewn Pobl a chynnal egwyddorion y Safon Arian yn Amgueddfa Cymru. | Pennaeth Adnoddau Dynol | |
| Sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn enghraifft batrymol er mwyn i bobl Cymru fod yn rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau | | | | |
| B1.11<br>Strwythurau a threfniadau llywodraethu sy'n hwyluso prosesau gwneud penderfyniadau ac sy'n adlewyrchu Amgueddfa Cymru 2030. | Prif Weithredwr | • Gweithredu a chydgysylltu'r argymhellion o'r Adolygiad Teilwredig y cytunwyd arnynt ac adrodd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig a Llywodraeth Cymru.<br>• Bydd Amgueddfa Cymru yn parhau i weithio gyda Chyngor Abertawe i lunio model gweithredu ar gyfer y dyfodol yn Amgueddfa Genedlaethol y | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br><br>Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu a Phennaeth Amgueddfa | Ch1-4<br>Ch1-4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Glannau erbyn diwedd cytundeb cydgyllido cyfreithiol 2005–2030 | Genedlaethol y Glannau | |
| B1.12<br>Adrodd ar berfformiad a chynlluniau'r sefydliad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru. | Cyllid ac Adnoddau | • Paratoi adroddiadau chwarterol yn unol â'r amserlen, a datblygu Cynllun Gweithredol ar gyfer 2025/26.<br>• Cyflawni adolygiad blynyddol 2023/24.<br>• Datblygu DPAau gweithredol a fframwaith effaith<br>• Paratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24<br>• Cael adroddiad archwilio glân. | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd<br>Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg<br>Pennaeth Cyllid/Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd | Ch1-4<br>Ch3-4<br>Ch3<br>Ch1/2<br>Ch3 |
| Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith | | | | |
| B1.13<br>Diwygio'r Polisi Iaith a'r Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol.<br>• Diwygio a chyhoeddi Polisi Iaith wedi'i ddiweddaru, a diweddaru'r Cynllun Gweithredu ar y Gymraeg. **(*TR59)** | Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu/Cydlynydd y Gymraeg | Ch2<br>Ch4<br>Ch4 |
| B1.14<br>Cefnogi cyfleoedd i ddysgu Cymraeg mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | Cyllid ac Adnoddau | • Archwilio ffyrdd o gynyddu cyfleoedd i'r staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. **(*TR61)** | Pennaeth Adnoddau Dynol | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| B1.15 Profiadau a gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu | • Cynnal rhaglenni cyhoeddus a chynnig profiadau i ymwelwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hamgueddfeydd a'n lleoliadau ledled Cymru ac ar-lein, gan gynnwys defnyddio dull lluosieithog i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi Cymraeg 2050. | Penaethiaid Dysgu, Penaethiaid Amgueddfeydd, Pennaeth Digidol a Chydlynydd y Gymraeg | Ch1-4 |
| Bydd pawb yng Nghymru yn ymddiried yn Amgueddfa Cymru ac yn ei hadnabod | | | | |
| B1.16 Cyflwyno brand newydd Amgueddfa Cymru. | Cysylltiadau a Chyllido | • Sefydlu fframwaith brand newydd ar gyfer datblygiad hirdymor a chodi ymwybyddiaeth o'r brand ac ymgysylltiad ag ef* | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch3 |
| B1.17 Datblygu a chyflawni cynlluniau marchnata a chyfathrebu er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a'u hysbrydoli. | Cysylltiadau a Chyllido | • Datblygu cynlluniau marchnata a chyfathrebu mesuradwy yn seiliedig ar anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd newydd a phresennol drwy'r teulu cyfan o saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau. | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu | Ch4 |
| B1.18 Datblygu Cynllun Gweithredu Eiriolaeth a Materion Allanol | Cysylltiadau a Chyllido | • Adolygu, diweddaru a chyflawni Cynllun Gweithredu Eiriolaeth a Materion Allanol yn flynyddol | Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Nawdd | Ch2-3 |
| B1.19 Datblygu blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau ar gyfer cyfranogwyr, a'u rhoi ar waith. | Cyllid ac Adnoddau | • Sefydlu prosesau er mwyn diweddaru ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau cynulleidfaoedd a chynulleidfaoedd â blaenoriaeth yn barhaus.<br>• Cydweithio â'n partneriaid a'n defnyddwyr i greu cynnwys ac ymateb i dueddiadau digidol sy'n datblygu. | Pennaeth Digidol, TGCh a Gwasanaethau Technoleg. | Ch1-4<br>Ch1-4 |
| Mae'r seilwaith ffisegol yn addas i'r diben | | | | |
| B1.20 Datblygu a chyflawni Strategaeth Rheoli | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Cynnal rhaglen gyfalaf wedi'i symleiddio sy'n cyd-fynd â'r dyraniad cyllid gan fynd i'r afael â'r | Pennaeth Adeiladau ac Ystadau | Ch4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ystadau pum mlynedd a chynlluniau cysylltiedig. | | materion gweithredol ac iechyd a diogelwch sydd â'r flaenoriaeth uchaf.<br>Caiff y cam gweithredu ei ailystyried os bydd y cynnig ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn llwyddiannus (£30m dros chwe blynedd) | | |
| B1.201<br>Datblygu a chyflawni strategaeth storio gynhwysfawr. | Casgliadau ac Ymchwil | • Parhau i gyflwyno rhaglen resymoli.<br>• Datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig er mwyn cynyddu lle storio a gwella cyfleusterau storio o fewn ystad Amgueddfa Cymru, a chefnogi adolygiad Llywodraeth Cymru o gyfleusterau storio ledled Cymru. | Pennaeth Prosiectau Casgliadau Cyfalaf | |
| Mae ein hamgueddfeydd a'n harferion gweithio yn ddiogel ac yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch a diogeledd | | | | |
| B1.21<br>Sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth | • Cynnal cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch ym mhob amgueddfa er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar weithrediadau'r safleoedd yn ddiogel, gan gynnwys unrhyw fesurau newydd (e.e. cyfraith Martyn)<br>• Sicrhau bod amgueddfeydd wedi'u staffio'n ddigonol a bod mesurau diogelwch priodol ar waith ynddynt er mwyn cynnig profiad diogel a phleserus i ymwelwyr<br>• Sicrhau y gall pob amgueddfa fod ar agor i'r cyhoedd ar y dyddiadau a'r amseroedd a hysbysebir | Pennaeth Diogeledd, Iechyd a Diogelwch, Penaethiaid Amgueddfeydd | Ch1-4<br>Ch1-4<br>Ch1-4 |

## Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)

| DPA | Targed | Is-adran Arweiniol |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Incwm Refeniw:** Cyfanswm yr incwm refeniw gan gynnwys trosiant ac ailgodiadau tâl masnachol, ac incwm adrannol. | £ i'w gadarnhau pan fydd cyllideb yr Amgueddfa wedi'i phennu'n derfynol | Cysylltiadau a Chyllido |
| **Cynhyrchu incwm (cyfyngedig ac anghyfyngedig):** Cyfanswm codi arian cyfyngedig ac anghyfyngedig | £ I'w gadarnhau pan fydd cyllideb yr Amgueddfa wedi'i phennu'n derfynol | Cysylltiadau a Chyllido |
| **Ymchwil:** Nifer y prosiectau ymchwil a gwblheir | 8 prosiect | Casgliadau ac Ymchwil |
| **Sylw yn y cyfryngau:** Gwerth hysbysebu cyfwerth (AVE) | £20,000,000m AVE | Cysylltiadau a Chyllido |
| **Salwch staff:** % Canran diwrnodau | 4%** | Cyllid ac Adnoddau |

TR = Argymhelliad o'r Adolygiad Teilwredig. TR na chyfeirir ato: Rhif 43.

DRAFT

## 3. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

D.S. Yn amodol ar adolygu'r targedau yn barhaus.

| Metrig | Diffiniad | Targed 2024/25 | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1: Cynrychioli pawb** | | | | | | | |
| Ymweliadau | Nifer yr ymweliadau a gofnodir ym mhob safle | 1,560,106 | 446,320 | 561,846 | 296,290 | 255,650 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| Benthyciadau | Benthyciadau o fewn Cymru | 22 ardal awdurdod lleol | 10 | 5 | 5 | 2 | Casgliadau ac Ymchwil |
| **2: Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes** | | | | | | | |
| Addysg (Ysgolion) | Nifer y defnyddwyr mewn amgueddfeydd ac yn ddigidol | 180,000 | 55,000 | 39,000 | 46,000 | 40,000 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| Arddangosfeydd (Dros dro) | Niferoedd yn Amgueddfa Cymru ac mewn lleoliadau partner | 650,000 | 165,000 | 160,000 | 165,000 | 160,000 | Casgliadau ac Ymchwil |
| Digwyddiadau | Niferoedd sy'n bresennol | 176,000 | 40,000 | 71,000 | 34,000 | 31,000 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| Gwirfoddoli | Oriau | 25,000 awr | 6250 | 6250 | 6250 | 6250 | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu |
| **3: Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd** | | | | | | | |
| Defnydd ynni | Gan ddefnyddio 2019/2020 fel llinell sylfaen, bydd Amgueddfa Cymru yn lleihau allyriadau carbon 2% y flwyddyn (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | Lleihad o 2% | - | - | - | Lleihad o 2% | Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth |
| Prosiectau ymchwil | Nifer y prosiectau newydd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â monitro amgylcheddol | 3 | | 1 | 1 | 1 | Casgliadau ac Ymchwil |

DRAFT

| Metrig | Diffiniad | Targed 2024/25 | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli** | | | | | | | |
| Boddhad Ymwelwyr | Sgôr hyrwyddo net gyffredinol (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | 50% | - | - | - | 50% | Profiad, Addysg ac Ymgysylltu/Cyllid ac Adnoddau |
| **5: Darganfod ac archwilio'n ddigidol** | | | | | | | |
| Gwefan | Nifer yr ymweliadau (yn gronnol dros gyfnod o flwyddyn) | 2,250,000 | 562,000 | 562,000 | 562,000 | 562,000 | Cyllid ac Adnoddau |
| Cyfryngau cymdeithasol | Nifer y dilynwyr (ar ddiwedd y cyfnod) | 220,000 | 213,570 | 215,710 | 217,860 | 220,000 | Cyllid ac Adnoddau |
| Casgliadau | Nifer y gwrthrychau newydd â delweddau a gwybodaeth ategol a gaiff eu rhannu ar lwyfannau digidol yn ystod y cyfnod. | 1,800 | 300 | 450 | 500 | 550 | Casgliadau ac Ymchwil |
| **6: Creu cysylltiadau ar draws y byd** | | | | | | | |
| Ymwelwyr o'r tu allan i Gymru | Y ganran o gyfanswm yr ymweliadau unigryw a wneir gan bobl sy'n byw y tu allan i Gymru (y DU a gweddill y byd) (caiff hyn ei asesu'n flynyddol) | 45% | - | - | - | | Cysylltiadau a Chyllido/Cyllid ac Adnoddau |

DRAFT

| Metrig | Diffiniad | Targed 2024/25 | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. Hwyluswyr Strategol | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm Refeniw | Cyfanswm yr incwm refeniw gan gynnwys trosiant ac ailgodiadau tâl masnachol, ac incwm adrannol. | I'w gadarnhau pan fydd cyllideb yr Amgueddfa wedi'i phennu'n derfynol | | | | | Cysylltiadau a Chyllido |
| Cynhyrchu incwm (cyfyngedig ac anghyfyngedig) | Cyfanswm codi arian cyfyngedig ac anghyfyngedig | I'w gadarnhau pan fydd cyllideb yr Amgueddfa wedi'i phennu'n derfynol | | | | | Cysylltiadau a Chyllido |
| Ymchwil | Nifer y prosiectau ymchwil a gwblheir | 5 | - | - | - | 5 | Casgliadau ac Ymchwil |
| Sylw yn y cyfryngau | Gwerth hysbysebu cyfwerth (AVE) | £20,000,000 | £5m | £5m | £5m | £5m | Cysylltiadau a Chyllido |
| Salwch staff | % Canran diwrnodau | 4% | 4% | 4% | 4% | 4% | Cyllid ac Adnoddau |

DRAFT